OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 504 (Cy. 104) (C. 46)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2017

*Gwnaed - - - - 29 Mawrth 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(3)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2017

**2.** Y diwrnod penodedig i Ran 6 o'r Ddeddf ddod i rym yw 1 Ebrill 2017 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

*Jane Hutt*
29 Mawrth 2017 Un o Weinidogion Cymru

(**1**) 2016 dccc 3.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym Ran 6 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2017 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 77 i 79 i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau. | 24 Chwefror 2017 | O.S. 2017/152 (Cy. 44) |